

Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) Yng Nghymru 2014

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-Y-Bont Ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg

20 – 22 Mai 2014

Gall y cyhoeddiad hwn gael i ei ddarparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd ychydig o oedi wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copi o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Swyddfeydd
Cenedlaethol AGGCC
Swyddfeydd y
Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126
Ebost: aggcc@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.aggcc.org.uk
Gwefan y Gydarolygiaeth: www.inspectionwales.com

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.hiw.org.uk

**ADOLYGIAD CENEDLAETHOL O'R
DEFNYDD O'R TREFNIADAU DIOGELU
RHAG COLLI RHYDDID YNG NGHYMRU
2014**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ABERTAWE BRO MORGANNWG
Mai 20 -22 2014**

Adolygiad Cenedlaethol

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain. Cafodd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid eu cyflwyno'n ddiweddarach i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle mae rhywun o bosibl yn colli ei ryddid o fewn ystyr erthygl 5 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Gellir cymhwyso'r trefniadau diogelu i unigolion dros 18 oed sydd ag anhwylder meddwl ac nad ydynt yn meddu ar y gallu gwybyddol (galluedd meddyliol) i wneud penderfyniadau drostynt hwy eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) hwn. Cafodd y gwaith maes ei gwblhau fel rhan o arolygiad thematig cenedlaethol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolygiad yn fuan wedi i'r Goruchaf Lys roi dyfarniad yn achos P a Gorllewin Swydd Gaer sydd wedi cyfrannu at gynnydd mewn ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Roedd yr adolygiad cenedlaethol yn cynnwys arolwg o bob BILI ac awdurdod lleol a 3 diwrnod o waith maes a gynhaliwyd mewn 7 awdurdod lleol ac yn yr holl BILlau rhwng mis Ebrill a mis Mai 2014. Bydd canfyddiadau o'r arolygiadau unigol yn goleuo adroddiad trosolwg cenedlaethol gan AGGCC/AGIC.

Roedd yr amcanion fel a ganlyn: -

- Canfod a yw'r "Trefniadau Diogelu" yn yr adroddiad monitro blynyddol ar y cyd yn effeithiol o ran cadw pobl yn ddiogel ac nad yw'r person perthnasol/unigolion yn colli eu rhyddid yn ddiangen neu heb i drefniadau diogelu priodol gael eu rhoi ar waith.
- Adolygu'r modd y mae'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei weithredu'n ymarferol a phenderfynu pa un a ddylid diwygio a diweddarau'r canllawiau.
- Ymchwilio i'r hyn sy'n cyfrannu at anghysonderau o ran defnyddio Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar draws yr ALlau a'r BILlau yng Nghymru.
- Canfod a yw ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn meddu ar yr ymwybyddiaeth, yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni eu priod gyfrifoldebau i gymhwyso a rheoli Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn effeithiol pan fo'n briodol.
- Deall profiad unigolion a gofawyr.
- Adnabod ac adrodd ar arfer da.

Cyflwyniad

Mae gan y ddau sefydliad a arolygwyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y BIP), nifer o drefniadau ar y cyd sydd hefyd yn cynnwys y ddau Awdurdod Lleol arall ac a elwir yn grŵp cydweithredol Bae'r Gorllewin. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin a rhai elfennau o reoli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid; fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth wedi'i integreiddio'n llawn. Mae gan bob sefydliad ei drefniadau gweithredol ei hun ar gyfer cydgysylltu, asesu a monitro. Ceir trefniadau asesu a rennir trwy'r Rheolwr dynodedig ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a letyir gan y BIP, y mae ei rôl yn cynnwys yr holl ALLau a'r BIP ym Mae'r Gorllewin. Mae'r rôl hon yn cynnwys hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth, adrodd a datblygu polisïau a gweithdrefnau.

Mae gan yr ALI ddarpariaeth 'fewnol' o ran cartrefi gofal ac felly mae ganddo gyfrifoldebau fel corff goruchwyliol ac awdurdod rheoli dan ddeddfwriaeth y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Nid ydynt yn rhannu Aseswyr Budd Pennaf gyda'i gilydd na phartneriaid eraill.

Mae lefel y gweithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn isel o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru. Mae nifer y ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn 2012/13 (4) yn y BIP am bob 100,000 o bobl yn nis nag unrhyw ardal arall yng Nghymru (nid yw ffigyrau 2013/14 ar gael) ac mae gan yr ALI niferoedd isel iawn hefyd, sef 10 (ffigyrau 2013/14).

Mae grŵp Bae'r Gorllewin wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i Ddyfarniad y Goruchaf Lys sy'n cynnwys asesu'r goblygiadau ar gyfer y gweithlu ac adolygu'r trefniadau gofal a chymorth ar gyfer pobl a fydd yn cynnwys pobl mewn llety hirdymor a ddarperir gan y GIG.

1. Ansawdd Ceisiadau ac Asesu

Mae'r nifer fach o geisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn dynodi nad yw wedi bod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor yn flaenorol er gwaethaf nifer y cartrefi gofal o fewn ei ffiniau a nifer y lleoedd y mae'n eu comisiynu. Dywedodd Aseswyr Budd Pennaf, yn eu profiad hwy, fod gan gartrefi gofal ganfyddiad negyddol am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'u bod wedi'u drysu o ran pa amgylchiadau allai sbarduno cais. Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan y cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ei hun yn ystod 2012/13.

Cafodd chwe achos unigol eu dilyn gan arolygwyr ac roeddent yn briodol ac yn cynnwys rhesymau eglur a manwl dros y cais. Roedd rhai gwallau mewn ceisiadau unigol, er enghraifft mewn un achos nid oedd yn eglur o'r gronoleg a oedd wedi'i chofnodi bod yr asesiadau wedi cael eu cwblhau o fewn yr

amserlen ofynnol. Roedd y mwyafrif o'r ceisiadau a welwyd wedi cael eu codi gan yr Awdurdod Rheoli dan sylw, Rheolwyr Gofal ac un gan arolygydd yn AGGCC fel trydydd parti yn ystod arolygiad rheoleiddiol.

Fe adolygodd yr arolygwyr nifer o achosion na chawsant eu hawdurdodi ac roedd tuedd tuag at beidio â chaniatáu awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, boed yn un brys neu safonol, ond yn hytrach ceisio lleihau'r achos o golli rhyddid fel ei fod yn "gyfyngiad yn unig". Roedd hyn yn cael ei gyflawni, er enghraifft, trwy symud i leoliad gofal gwahanol neu symud o fewn yr un cartref gofal gan fod ar y person perthnasol angen amgylchedd diogel. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn arfer da; fodd bynnag, mewn enghraifft arall roedd anghysondeb rhwng y geiriad yng nghais yr Awdurdod Rheoli a oedd yn disgrifio "ysfa gref i adael a thuedd i gerdded yn ôl ac ymlaen yn barhaus" a barn yr Aseswr Budd Pennaf a oedd yn ystyried nad oedd lefel y dryswch a'r cynnwrf yn sylweddol. Bydd angen i'r arfer hwn newid yn dilyn Dyfarniad y Goruchaf Lys.

ARFER DA

Roedd un lleoliad gofal wedi datblygu rhestr wirio i'w defnyddio ar y diwrnod derbyn (neu pan fo amgylchiadau person yn newid), ar gyfer pobl sydd â diffyg galluedd o bosibl. Mae'r rhestr wirio hon wedi eu helpu i adnabod achosion posibl o golli rhyddid a chymryd camau addas megis ymgeisio am awdurdodiad brys ac/neu safonol, cysylltu â'r tîm diogelu oedolion neu weithiwr cymdeithasol.

Yn achosion y BIP a adolygwyd, roedd nifer o wallau yn y ceisiadau a oedd yn dynodi nad oedd staff yn gyfarwydd â phroses y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid nac yn hyderus yn ei defnyddio. Cafwyd arwydd pellach o hyn yn y ffeiliau achosion, gan fod y Corff Goruchwyliol wedi gorfod dychwelyd ceisiadau neu geisio mwy o eglurder ynglŷn â'r sail resymegol dros y cais. Roedd y Corff Goruchwyliol hefyd yn cael niferoedd mawr o ymholiadau gan Awdurdodau Rheoli'r BIP yn gofyn am arweiniad ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a phryd y dylid cyflwyno cais. Awgrymodd yr Aseswyr Budd Pennaf y cyfwelwyd â hwy fod agwedd staff ar y wardiau o fewn y BIP yn negyddol iawn tuag at y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a chadarnhawyd hyn yn ystod yr ymweliad â'r safle. Dywedodd Aseswyr Budd Pennaf fod ymwybyddiaeth staff ar y mwyafrif o wardiau ysbytai am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn wael. Roedd un rheolwr ward wedi dweud wrth Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol nad oedd yn cytuno â'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac nad oedd yn eu defnyddio o'r herwydd. Ceir canfyddiad bod proses y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn rhy gymhleth sydd hefyd yn rhwystr i wneud mwy o geisiadau. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau unigol o asesiadau manwl a thrylwyr. Mae'r BIP yn profi cynnydd mewn ceisiadau o ganlyniad i Ddyfarniad y Goruchaf Lys. Dywedwyd wrth arolygwyr fod enw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ei hun yn cael ei ystyried yn negyddol gan staff a oedd yn teimlo

bod defnyddio'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn dynodi eu bod wedi gwneud rhywbeth yn anghywir ac y gallai eu defnyddio gael ei ystyried yn adlewyrchiad negyddol ar eu hymarfer.

Ychydig o atgyfeiriadau fu o'r BIP i'r gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol a ddywedodd fod nifer o bobl yn cael cymorth gan y GIG a ddylai, yn eu tyb hwy, fod yn ddarostyngedig i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Nid oes tueddiadau gan yr unigolion hyn ond maent yn ddarostyngedig i drefniadau gofal cyfyngol iawn yn eu lleoliadau cymunedol ac nid oes dewisiadau ganddynt yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn effeithio ar tua 50 o bobl ac mae wedi cael ei ddwyn i sylw'r BIP yn eu cymhwyster fel corff goruchwyliol sawl gwaith, gan yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Dywedodd yr Aseswyr Budd Pennaf eu bod yn ystyried bod y ddogfennaeth yng Nghymru'n aml yn ddryslyd a "ddim yn addas ar gyfer y diben" ond bod y ffurflenni ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn Lloegr yn fwy eglur ac yn haws i'w defnyddio.

Nid adolygwyd unrhyw achosion a oedd wedi cael eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod. Codwyd pryderon ynghylch y bwlch rhwng symud o ysbyty i gartref gofal lle nad oedd Atwrneiaeth Arhosol wedi'i sefydlu i reoli materion ariannol unigolyn pan oedd gan y defnyddiwr ddiffyg galluedd i gytuno â'r trefniadau.

2. Ansawdd Canlyniadau

Fel a amlygwyd yn flaenorol roedd ffocws yn y Cyngor ar ystyried yr opsiwn lleiaf cyfyngol i unigolion ac felly lleihau'r angen am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Fodd bynnag, gwelsom hefyd ddwy enghraifft o achosion lle'r oedd cais dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi cael ei awdurdodi ac amodau wedi cael eu sefydlu a oedd yn effeithiol iawn o ran cefnogi hawliau dynol person. Roedd y rhain yn cynnwys amodau a oedd yn gysylltiedig â mynediad at deulu, cadw'n ddiogel a mynd allan i'r gymuned. Mewn un achos pellach roedd amod wedi cael ei sefydlu a oedd yn datgan y dylai cynhadledd achos gael ei chynnal rhwng y gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, y Person Perthnasol a'i fab a oedd â phroblemau iechyd meddwl. Digwyddodd hyn ac fe sicrhodd y gallai eu perthynas gael ei chynnal gyda chymorth a threfniant hwyluso priodol.

Yn y BIP, lle'r oedd amodau wedi'u cynnwys gydag awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, mynegodd yr Aseswyr Budd Pennaf bryder nad oedd lleoliadau wastad yn ymlynu wrthynt o fewn yr amserlenni gofynnol. Gallai hyn gael effaith ar amseroldeb wrth ryddhau o'r ysbyty gan nad oedd y trefniadau ar gyfer eu lleoliad nesaf wedi cael eu gwneud. Roedd y grŵp o staff y cyfwelwyd â hwy'n teimlo y bydd Dyfarniad y Goruchaf Lys yn cael effaith fawr ar gynllunio ar gyfer rhyddhau ac y gallai olygu bod pobl yn aros am yn hwy mewn ysbytai yn y pen draw.

Dyweddodd yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol, yn eu profiad hwy o'r BIP, ei bod yn aml yn wir nad oedd unrhyw amodau'n cael eu gosod ar awdurdodiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac felly nad oedd unrhyw beth yn newid mewn gwirionedd i'r person perthnasol gan nad oedd unrhyw beth i weithio tuag ato e.e. cynllunio ar gyfer rhyddhau. Mae hyn wedi arwain at wneud ceisiadau dro ar ôl tro ar gyfer yr un unigolyn.

3. Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau, Cleifion a Gofalwyr

Roedd taflenni ar gael gan y Cyngor i'r unigolion, teulu a ffrindiau a Chynrychiolwyr Person Perthnasol a'r cyhoedd a'r taflenni hynny'n fanwl iawn ac yn gynhwysfawr. Ni welsom y rhain yn cael eu hyrwyddo na'u defnyddio yn y cartrefi gofal yr ymwelon ni â hwy. Roedd gwybodaeth eglur iawn hefyd am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar wefan y Cyngor.

Roedd Cynrychiolwyr Person Perthnasol wedi'u penodi yn y nifer fach o achosion lle roedd ceisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'u hawdurdodi gan y Cyngor ac yn teimlo'u bod yn cael cymorth i gyflawni'r swyddogaeth hon, gan gynnwys cael yr wybodaeth berthnasol. Roedd teuluoedd hefyd wedi cael gwybodaeth ac yn dweud eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt. Mae taflenni gwybodaeth ar gyfer cleifion, perthnasau a gofalwyr wedi cael eu cynhyrchu gan y BIP ac roeddent ar gael yn y wardiau.

Mae gan y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol eiriolwr Cymraeg ar gael ac mae ganddynt fynediad hefyd at grwpiau cymunedol Tsieineaidd a Phwylaidd. Roedd un o'r achosion a draciwyd yn ymwneud â siaradwr Cymraeg ac roedd tystiolaeth bod hyn wedi cael ei ystyried yn yr asesiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'i threfniadau gofal a chymorth wedi hynny.

4. Ansawdd y Gweithlu

Mae Cydgysylltydd Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid y Cyngor yn eistedd o fewn y Tîm Diogelu ac yn rhannu cymorth busnes gyda gweddill y tîm. Mae Cydgysylltydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid hefyd yn cyflawni swyddogaeth gydgysylltu ar gyfer atgyfeiriadau mewn perthynas â diogelu oedolion ond mae'r Cyngor wedi cydnabod nad yw hyn yn gynaliadwy yn yr hirdymor, yn enwedig yn dilyn Dyfarniad y Goruchaf Lys a'r cynnydd rhagamcanol yn y galw.

Mae swydd a gyd-ariennir yn bodoli ar draws y 3 Chyngor a'r BIP yng ngrŵp Bae'r Gorllewin a'r swyddog hwnnw'n gweithredu fel y swyddog arweiniol ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Swydd ran-amser yw hon ac mae'n gweithredu fel adnodd ar gyfer yr Awdurdodau Rheoli gan ddarparu

cyngor, arweiniad a hyfforddiant. Cafodd hyn ei ddisgrifio gan yr olaf o'r rhain fel adnodd amhrisiadwy ar gyfer cyflwyno ymholiadau i gael cyngor a chymorth, ond dywedodd y gall fod problemau pan nad yw'r cydgysylltydd ar gael. Dywedodd unigolion y cyfwelwyd â hwy yn ystod yr arolygiad fod y tîm gweinyddol o fewn corff goruchwyliol y Cyngor yn ffynhonnell dda ar gyfer cymorth a chanllawiau.

Dim ond 3 Aseswr Budd Pennaf gweithredol oedd yn y Cyngor ar adeg yr arolygiad; fodd bynnag roedd un arall wedi cael ei hyfforddi. Ystyrir bod y rôl o ddod yn Aseswr Budd Pennaf yn "ychwanegiad" at y brif swydd sy'n cael blaenoriaeth. Caiff unigolion eu cymell gan eu datblygiad proffesiynol eu hunain ac ymrwymiad personol i gysyniad hawliau dynol. Yn flaenorol roedd cyfarfod isranbarthol i Aseswyr Budd Pennaf ond nid ydynt yn mynychu'r rhain mwyach. Fodd bynnag, cynhelir cyfarfod lleol o fewn y Cyngor bob 8 – 12 wythnos. Roedd canfyddiad bod Aseswyr Budd Pennaf yn cael eu hanfon i ymdrin â cheisiadau dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn gyntaf i leihau'r angen am atgyfeiriad at Feddyg dan Adran 12 ac mae hyn yn ddatganedig yng ngweithdrefnau'r ALL ei hun ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dywedodd yr Aseswyr Budd Pennaf eu bod i gyd yn gwneud pethau'n wahanol i ddechrau ac y byddent felly'n mynd allan ar y cyd i sicrhau cysondeb. Mae cofrestr Aseswyr Budd Pennaf i'w chael ar draws Bae'r Gorllewin ond nid yw'n gwbl gyfredol ac nid yw'n adnodd a rennir.

Mae proses corff goruchwyliol y Cyngor yn datgan y dylech benodi Aseswr Budd Pennaf sy'n brofiadol yn y grŵp cleientiaid ond mewn gwirionedd mae penodiad yn seiliedig ar ba bynnag Aseswr Budd Pennaf sydd ar gael. Mae'r broses hefyd yn datgan y dylid gofyn i reolwyr y cartrefi gofal egluro'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wrth y person hyd y gellir er bod hyn yn anodd os yw'r unigolyn yn ddryslyd.

Mae gan y BIP 11 Aseswr Budd Pennaf y dywedwyd fod eu nifer yn annigonol i ateb y galw, yn enwedig ers Dyfarniad y Goruchaf Lys. Dywedodd Aseswyr Budd Pennaf eu bod yn cael eu gorweithio ac y gallant gael ceisiadau i weithio ar benwythnosau i ateb y galw am asesiadau. Mae grŵp cymorth Aseswyr Budd Pennaf gan y BIP sy'n cwrdd yn chwarterol i drafod achosion diweddar ac unrhyw faterion. Dywedodd yr Aseswyr Budd Pennaf fod hyn o gymorth mawr iddynt.

Dim ond 14 o atgyfeiriadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud at y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol ers i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael eu cyflwyno yn 2009 a dim ond 5 atgyfeiriad a wnaed gan y BIP ers 2009, nad oedd yr un ohonynt ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag dros yr wythnosau diwethaf, oherwydd Dyfarniad y Goruchaf Lys, bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau gan y Cyngor ond mae'r nifer gan y BIP yn dal yn isel iawn. Roedd yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol y cyfwelwyd â hwy'n teimlo nad oedd eu rôl hwy'n cael ei deall ac nad oedd yn cael ei defnyddio ddigon. Maent wedi cynnig mynychu cyfarfodydd tîm a darparu hyfforddiant i geisio mynd i'r afael â hyn ond nid oes llawer wedi manteisio ar y cynnig. Fodd bynnag, er y niferoedd isel sydd wedi manteisio, dywedodd y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol fod yr Eiriolwyr

Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi cael eu gwahodd i siarad gydag Uwch Anesthetyddion fel rhan o un o'u sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a bod hynny wedi cael derbyniad da iawn.

Ymhlith yr Awdurdodau Rheoli (cartrefi gofal), roedd gwybodaeth am y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn amrywiol ac mewn rhai lleoliadau, lle byddech yn disgwyl lefel dda iawn o brofiad oherwydd anghenion y bobl sy'n byw yno, nid felly yr oedd hi. Fodd bynnag, mewn rhai o'r Awdurdodau Rheoli yr ymwelwyd â hwy, roedd y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn elfen orfodol o'r hyfforddiant sefydlu ac roeddent yn diweddar hyn yn flynyddol. Roedd hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w dealltwriaeth o ran sut i adnabod achos o golli rhyddid a gwneud cais priodol.

Yn y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2013 a mis Ebrill 2014, cafodd 1,909 o staff ar draws y BIP a'r 3 Chyngor ym mhartneriaeth Bae'r Gorllewin hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a 1,753 ar y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Sesiynau hanner diwrnod oedd y rhain ac nid oeddent yn orfodol. Roedd y staff y cyfwelwyd â hwy'n teimlo bod yr hyfforddiant hwn yn anodd i'w roi ar waith gan ei fod yn seiliedig ar theori ac nad oedd enghreifftiau o achosion wedi cael eu darparu. Fe awgrymon nhw hefyd y dylai'r hyfforddiant gynnwys y broses o ymgeisio am awdurdodiad dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid oherwydd ei chymhlethdod. Roedd yr hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei ddarparu hefyd fel rhan o ddiwrnod hyfforddi llawn gyda hanner y diwrnod yn cael ei neilltuo i ddiogelu. Dywedwyd na ddylai'r hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael ei gyfuno â hyfforddiant arall ac y byddai o fudd pe bai'r hyfforddiant yn cael ei gynnal dros ddiwrnod llawn.

Mae hyfforddiant ar gyfer Awdurdodau Rheoli ar gael gan y Cyngor ond yn ymarferol mae wedi bod yn anodd cael mynediad at leoedd gan fod nifer y ceisiadau yn aml yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae'r hyfforddiant ei hun yn cael ei werthfawrogi ond roedd Awdurdodau Rheoli'n meddwl y gallai fod â ffocws mwy ymarferol er mwyn bod yn fwy hygyrch i staff. Hefyd, roedd y cymorth a ddarperir gan Reolwr y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cael cyngor a gwybodaeth yn barhaus pan oedd sefyllfaoedd yn codi.

5. Arweinyddiaeth a llywodraethu

Mae'r swyddogaeth oruchwylio ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn yr ALI wedi'i lleoli bellach yn y Tîm Diogelu, ac mae'r trefniadau rheoli ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi newid yn ddiweddar. Cyfrifoldeb y rheolwr grŵp ar gyfer Diogelu ac Ansawdd yw hyn. Mae trefniadau o ran gallu yn y dyfodol yn dal i gael eu hystyried, yn enwedig yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys sydd wedi arwain at gynnydd mewn atgyfeiriadau. Nid yw'r trefniadau ar gyfer gwahanu'r rôl fel Corff Goruchwyliol

ac fel Awdurdod Rheoli wedi cael eu nodi gan y Cyngor yn eu polisi hwy eu hunain ar gyfer gweithredu fel Corff Goruchwyliol mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid nac yn nogfennau cyfarwyddyd Bae'r Gorllewin. Mae hyn yn achos pryder gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru'n amodi y dylai'r rolau fod wedi'u gwahanu'n eglur.

Mae canllawiau amlasiantaeth cyffredin i'w cael ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar draws y sefydliadau sy'n rhan o grŵp Bae'r Gorllewin ac mae ganddynt gonsortiw m ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sy'n cwrdd bob chwarter a grŵp cymorth ar gyfer Cyrff Goruchwyliol. Mae'r canllawiau'n nodi'n fanwl y trefniadau llywodraethu er mwyn i'r BIP wahanu ei gyfrifoldebau fel Corff Goruchwyliol ac Awdurdod Rheoli fel sy'n angenrheidiol. Y dull a ddefnyddir yw bod swyddogaeth y Corff Goruchwyliol yn cael ei chyflawni gan reolwr ardal arall. Nid yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cyngor wedi cael eu cynnwys yn y ddogfen hon sy'n golygu bod cyfle wedi cael ei golli. Mae Bae'r Gorllewin yn ystyried cyfuno gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf ac adnoddau hyfforddi ond nid oes cynlluniau pendant hyd yma. Dywedwyd fod cynllun gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn datblygu hyn ymhellach oherwydd effaith Dyfarniad y Goruchaf Lys.

Dywedodd un Awdurdod Rheoli fod ymateb y Cyngor i wneud cais am y tro cyntaf yn negyddol iawn a'u bod wedi cael eu gwneud i deimlo'n annigonol gan nad oeddent yn deall y broses a bod y Cyngor wedi gofyn iddynt ailgyflwyno'r cais. Ni chafodd ei wneud yn glir beth oedd i fod i ddigwydd gyda'r achos o golli rhyddid yn y cyfamser h.y. ni chafodd awdurdodiad brys ei hwyluso na'i gytuno.

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe ar hyn o bryd ac mae adroddiadau ar weithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gwybodaeth gysylltiedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r swyddogion arweiniol ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn eistedd ar y Bwrdd ynghyd â sefydliadau eraill sy'n rhanddeiliaid perthnasol. Mae nifer o is-grwpiau i'w cael gan gynnwys is-grŵp archwilio sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr ac sy'n datblygu cynllun gwaith a fydd yn cynnwys y materion sy'n gysylltiedig â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Roedd trefniadau monitro contractau'r Cyngor gyda chartrefi gofal yn cynnwys monitro atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ond nid oedd unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf Galluedd Meddyliol na'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae'r trefniadau partneriaeth ar gyfer comisiynu ar draws Bae'r Gorllewin wedi hen ymsefydlu ac maent yn gweithio ar fethodoleg ar gyfer ffioedd a thaliad premiwm ansawdd a fydd yn rhoi anogaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell.

Argymhellion

1. Mae nifer o bobl sy'n cael cymorth gan y GIG a ddylai fod yn ddarostyngedig i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gan nad oes

tueddiadau ganddynt ond maent yn ddarostyngedig i drefniadau gofal cyfyngol iawn ac nid oes dewisiadau ganddynt yn eu bywydau. Dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

2. Yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y gwasanaeth ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei roi ar sylfaen fwy cynaliadwy gydag atebolrwydd rheoli, trefniadau partneriaeth a threfniadau llywodraethu eglur.
3. Mae angen i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwahanu swyddogaethau'r Cyngor fel corff goruchwyliol ac awdurdod rheoli gael eu nodi fel rhan o'i bolisi ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'u cyflwyno mewn adroddiad i'r Weithrediaeth.
4. Dylai'r Cyngor a'r BIP ddatblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd ac adrodd cadarn i sicrhau bod asesiadau ac awdurdodiadau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, canllawiau a chyfraith achos a bod y gweithgarwch dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael ei fonitro'n gorfforaethol.
5. Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ill dau adolygu'r gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf i sicrhau eu bod yn gallu ateb gofynion y ddeddfwriaeth a Dyfarniad y Goruchaf Lys gan gynnwys opsiynau ar gyfer trefniadau cyfatebol ac/neu gyfuno adnoddau.
6. Dylai cynllun ar gyfer y gweithlu sy'n mynd i'r afael â gofynion hyfforddiant yr holl grwpiau o staff ar lefel sy'n briodol i'w rôl arbennig a'u cyfraniad at y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r holl sefydliadau perthnasol gan gynnwys awdurdodau rheoli. Dylent archwilio effeithiolrwydd pob hyfforddiant o'r fath.
7. Dylai'r Cyngor a'r BIP ddatblygu gwybodaeth ac offer ar gyfer eu staff sy'n hybu gwell dealltwriaeth am rôl yr Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a phryd y dylid eu defnyddio.